# Nodyn Arweiniad Technegol 007: Cael trwydded wrth weithio gyda rhywogaethau a warchodir – Ymchwil, Addysgu ac Allgymorth

## 1 Rhagarweiniad

Fel prifysgol, mae'n rhaid i ni fod yn ymwybodol o staff a allai fod yn ymdrin ag anifeiliaid neu blanhigion sy'n cael eu hystyried yn rhywogaethau a warchodir. Gall hyn ddeillio'n uniongyrchol o waith ymchwil, neu'n anuniongyrchol o waith sy'n ymwneud ag ystâd y Brifysgol (adeiladau ac isadeiledd). Mae'r Nodyn Arweiniad Technegol hwn yn cynnwys gofynion cydymffurfio:

- Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (SI 2017/1012) fel y'u diwygiwyd
- Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981 c.69) fel y'i diwygiwyd

Mae'r canllawiau yn y ddogfen hon yn berthnasol i chi os yw eich gwaith yn cynnwys rhywogaeth a warchodir mewn un o'r meysydd canlynol:

- Ymchwil
- Addysgu
- Allgymorth

Am wybodaeth sy'n ymwneud â gwaith ar ystâd/isadeiledd y Brifysgol a allai effeithio ar rywogaeth a warchodir, bydd yn rhaid i chi ddarllen 'TGN006: Gweithio gyda rhywogaethau a warchodir – Ystadau a Rheoli Cyfleusterau'.

Mae angen trwydded i weithio gyda rhywogaethau a warchodir ac mae'r ddogfen hon yn rhoi manylion am y canlynol:

- Pryd y bydd angen trwydded arnoch chi
- Sut i gael trwydded
- Pwy y dylech ei hysbysu yn y Brifysgol

## 2 Gweithio gyda rhywogaethau a warchodir

### 2.1 Pryd bydd angen trwydded arnaf?

Bydd angen trwydded arnoch chi os ydych chi'n bwriadu ymgymryd â gwaith ymchwil, addysgu neu allgymorth sy'n cynnwys un o'r rhywogaethau a nodwyd yn naill ai:

- Rhywogaethau Ewropeaidd a warchodir (EPS) a nodwyd yn Atodlenni 2, 3, 4 neu 5 Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau (Atodiad 1 – Gofynion y Drwydded)

Yng Nghymru, mae hyn yn cynnwys y canlynol:

- Rhywogaethau o blanhigion[1]
    - Tegeirian y Fign Galchog, *Liparis loeselii*
    - Llyriad-y-dŵr Arnofiol, *Luronium natans*
    - Rhedynen Cilarne, *Trichomanes speciosum*
    - Tafolen y Traeth, *Rumex rupestris*
- Rhywogaethau o anifeiliaid
    - Ystlumod (pob rhywogaeth)
    - Pathew, *Muscardinus avellanarius*
    - Y Fadfall Gribog, *Triturus cristatus*
    - Llyffant y Twyni, *Bufo calamita*
    - Dyfrgi, *Lutra lutra*
    - Madfall y Tywod, *Lacerta agilis*

Mae 'Atodiad 1 – Gofynion y Drwydded' y ddogfen hon yn cynnwys yr holl atodlenni rhag ofn y bydd y gwaith a wneir gennych y tu allan i Gymru. Gwiriwch a ydych chi neu a fyddwch chi'n ymdrin â'r rhywogaethau hyn cyn dechrau eich prosiect.

Mae Rhywogaethau a Warchodir yn y DU (UKPS) wedi'i nodi yn y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad, ac maent yn cynnwys:

- yr holl adar gwyllt a'u nythod,
- yr holl ystlumod, yn ogystal â'r
- rhywogaethau a nodwyd yn Atodlenni 1 (adar), 5 (anifeiliaid), 6 (anifeiliaid na chaniateir eu lladd nac eu dal gan ddefnyddio dulliau penodol), 6ZA (anifeiliaid na chaniateir eu lladd nac eu dal drwy ddefnyddio baglau neu rwydo), 8 (planhigion), 9 (rhan II, rhywogaethau goresgynnol) (Atodiad 2 – Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981: Atodlenni perthnasol)

## 2.2 Beth mae angen i mi ei wneud i gael trwydded?

I weithio yng Nghymru, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi trwyddedau am weithgareddau penodol o dan y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad a Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau. Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau sy'n gysylltiedig â 'dibenion gwyddonol neu addysgol' (Rhan 5, Rheoliad 55, 2 (a)) a allai olygu rhyngweithio ag un o'r rhywogaethau a nodwyd neu fwy. Os oes angen trwydded Rhywogaethau Ewropeaidd a Warchodir arnoch ar gyfer eich prosiect, bydd angen i chi ddilyn y broses isod:

1. Aseswch a ydych chi'n bodloni'r meini prawf gofynnol: Caiff trwyddedau eu cyhoeddi dim ond pan fydd pob un o'r tri maen prawf yn cael ei fodloni[1]:
    a. mae diben y gwaith yn un o'r rhai hynny sydd wedi'u rhestru yn y Rheoliadau Cynefinoedd:
        i. mae'n cynnwys gwarchod iechyd neu ddiogelwch y cyhoedd neu resymau hollbwysig eraill sy'n ymwneud â budd y cyhoedd, gan

[1]Cyfoeth Naturiol Cymru, Gwybodaeth am drwyddedu rhywogaethau Ewropeaidd a warchodir: https://naturalresources.wales/permits-and-permissions/species-licensing/european-protected-species-licensing/information-on-european-protected-species-licensing/?lang=en

gynnwys rhai o natur gymdeithasol neu economaidd a chanlyniadau buddiol o bwysigrwydd sylfaenol i'r amgylchedd
   ii. dibenion gwyddonol ac addysgol
   iii. cylchynu neu farcio
   iv. gwarchod anifeiliaid gwyllt[2]
 b. does dim posibilrwydd amgen boddhaol
 c. na fydd y weithred a ganiatawyd yn andwyol i gynhaliaeth poblogaeth y rhywogaethau dan sylw ac yn cynnal statws gwarchod ffafriol (FCS) yn eu tiriogaeth naturiol

2. Cwblhewch y ffurflen gais a chyflwynwch ddatganiad o ddull sy'n rhoi manylion am sut y caiff y gwaith ei wneud i leihau'r effaith ar y rhywogaeth yn y lleoliad hwnnw
   a. Gallwch gysylltu â'r Swyddog Amgylchedd lleol neu'r Swyddog Bioamrywiaeth i gael rhagor o gymorth (Adran 4)
   b. Mae ffurflenni a chanllawiau ar gael o wefan Cyfoeth Naturiol Cymru
3. Cysylltwch â'r awdurdod trwyddedu yn ôl yr angen
4. Rhowch wybod i'ch Swyddog yr Amgylchedd lleol (adran 4) gan roi copi o'r drwydded iddo pan fydd wedi'i darparu i chi.
5. Ymgymryd ag unrhyw waith monitro ac adrodd sydd wedi'i nodi ar y drwydded, gan gynnwys y Swyddog Bioamrywiaeth a Swyddog yr Amgylchedd, fel y bo'n briodol

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn cyhoeddi trwyddedau dan adran 16 o'r Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad ar gyfer UKPS, fel y gallwch chi wneud gwaith dilys heb dorri'r gyfraith. Gellir cyhoeddi trwyddedau at ddibenion pwrpasol, gan gynnwys dibenion gwyddonol, ymchwil neu addysgol, ar yr amod nad oes ateb boddhaol arall.

### 2.2.1 Arweiniad a gwybodaeth ddefnyddiol

Mae amrywiaeth o wybodaeth am wefan Cyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â gweithio gyda rhywogaethau a warchodir yng Nghymru, gan gynnwys:

- Gwybodaeth gyffredinol am gyflwyno cais am drwydded gan Cyfoeth Naturiol Cymru[3]
- Darperir gwybodaeth yn y cais am drwydded Rhywogaethau Ewrop a Warchodir[4]

## 2.3 Mae angen trwydded arna i o'r tu allan i Gymru (ond yn yr UE). Beth dylwn i ei wneud?

[2] Cyfoeth Naturiol Cymru: https://naturalresources.wales/permits-and-permissions/species-licensing/european-protected-species-licensing/bat-licensing/?lang=en
[3] https://cdn.naturalresources.wales/media/3483/general-information-on-applying-for-a-licence-from-natural-resources-wales-nrw.pdf?mode=pad&rnd=132283213660000000
[4] https://cdn.naturalresources.wales/media/683322/information-to-be-provided-in-a-european-protected-species-licence-application.doc?mode=pad&rnd=132283213680000000

Bydd angen i chi ddilyn proses y wlad lle byddwch yn ymgymryd â'r ymchwil. Os yw'r wlad yn yr UE, bydd rheoliadau'r UE yn berthnasol a bydd deddfwriaeth leol i'w rhoi ar waith. Mae cwestiynau y dylech chi eu hystyried wrth gynllunio eich prosiect ymchwil yn cynnwys:

- A yw'r rhywogaeth rwyf yn gweithio gyda hi wedi'i gwarchod gan y gyfraith?
- Pwy yw'r corff trwyddedu sy'n gallu gwneud fy ngwaith yn bosib?
- Sut gallaf gael trwydded?

Dylech chi drafod gofynion cyfreithiol â'ch cydweithwyr.

Bydd angen i chi hysbysu eich Swyddog Amgylchedd lleol am drwyddedau/hawlenni a dderbynnir gennych.

### 2.4 A yw hyn yn berthnasol i'm hymchwil y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd?

Os yw'r wlad y tu allan i'r UE, efallai y bydd ganddi ei deddfwriaeth gwarchod rhywogaethau ei hun, a bydd angen i chi asesu hyn cyn dechrau ar eich gwaith ymchwil. Dylai hyn gael ei gynnwys yn eich asesiad risg, gan ddatblygu gwiriadau sy'n sicrhau na fyddwch chi'n torri'r gyfraith. Mae cwestiynau y dylech chi eu hystyried wrth gynllunio eich prosiect ymchwil yn cynnwys:

- A yw'r rhywogaeth rwyf yn gweithio gyda hi wedi'i gwarchod gan y gyfraith?
- Pwy yw'r corff trwyddedu sy'n gallu gwneud fy ngwaith yn bosib?
- Sut gallaf gael trwydded?

Bydd angen i chi hysbysu eich Swyddog Amgylchedd lleol am drwyddedau/hawlenni a dderbynnir gennych.

## 3 Cyfrifoldebau

| Rôl | Cyfrifoldeb |
|---|---|
| **Y Tîm Cynaliadwyedd** | Mae'r Tîm Cynaliadwyedd yn gyfrifol am:<br>• Gefnogi datblygiad ceisiadau yng Nghymru<br>• Trefnu gwaredu arbenigol os oes ei angen[5] |
| **Prif Ymchwilydd neu Arweinydd yr Ymchwil** | Mae'r Prif Ymchwilydd neu Arweinydd yr Ymchwil (neu'r unigolyn cyfrifol dynodedig) yn gyfrifol am y canlynol:<br>• Deall a oes angen trwydded ar gyfer y wlad lle bydd y gwaith yn cael ei wneud yng (i. Nghymru, ii. Yr UE, iii. Gweddill y Byd)<br>• Cwblhau cais am drwydded<br>• Cyflwyno cais am y drwydded<br>• Costau sy'n gysylltiedig â'r drwydded<br>• Cysylltu â'r corff rheoleiddio<br>• Cydymffurfio â'r drwydded drwy gydol cyfnod y prosiect ymchwil |

[5] Am ragor o wybodaeth, darllenwch y Nodiadau Arweiniad i Reoli Gwastraff ar gyfer Prifysgol Abertawe neu e-bostiwch estates-waste@abertawe.ac.uk.

| | |
|---|---|
| | • Gwaredu yn unol â gofynion y drwydded, gan gynnwys costau cysylltiedig<br>• Adnewyddu a chanslo trwydded, fel bo angen<br>• Adrodd am drwydded, fel bo angen<br>• Darparu copi o'r drwydded i Swyddog yr Amgylchedd a sicrhau y caiff ei hysbysu'n brydlon am newidiadau, e.e. diwedd y gweithgaredd / canslo'r drwydded |

# 4 Cymorth Ychwanegol

Am gymorth ychwanegol, gallwch gysylltu â'r canlynol:

| Rôl | Cyfeiriad e-bost |
|---|---|
| Swyddog Bioamrywiaeth | wildlife@abertawe.ac.uk |
| Swyddog Cynaliadwyedd | **sustainability@abertawe.ac.uk** |

# 5 Dogfen Reoli

| **Dogfen Reoli** | |
|---|---|
| Awdur: | Benjamin Sampson a Hayley Beharrell |
| Cymeradwywyd gan: | Heidi Smith |
| Dyddiad yr Adolygiad: | Chwefror 2021 |
| Fersiwn: | 1 |

| Fersiwn | Newidiadau |
|---|---|
| 1 | Dogfen newydd |
| | |

# Atodiad 1 – Gofynion y Drwydded

- Tabl 1: Atodlen 2, Rhywogaethau Ewropeaidd o anifeiliaid a Warchodir
- Tabl 2: Atodlen 3, Poblogaethau rhywogaethau penodol sydd wedi'u heithrio
- Tabl 3: Atodlen 4, anifeiliaid na chaniateir eu dal neu eu lladd mewn ffyrdd penodol
- Tabl 4: Atodlen 5, rhywogaethau o blanhigion Ewropeaidd a warchodir

**Sylwer:** Roedd y tablau hyn yn gyfredol ym mis Mehefin 2020. Defnyddiwch y dolenni yn y troednodiadau i sicrhau eich bod yn gwirio'r fersiynau diweddaraf.

### Tabl 1: Atodlen 2, Rhywogaethau Ewropeaidd o anifeiliaid a Warchodir[6]

| **Enw cyffredin[7]** | **Enw gwyddonol** |
|---|---|
| Ystlumod, trwyn pedol (pob rhywogaeth) | *Rhinolophidae* |
| Ystlumod, Nodweddiadol (pob rhywogaeth) | *Vespertilionidae* |
| Glöyn Byw, Glesyn Mawr | *Maculinea arion* |
| Cath, Wyllt | *Felis silvestris* |
| Dolffiniaid, Llamhidyddion a Morfilod (pob rhywogaeth) | *Cetacea* |
| Pathew | *Muscardinus avellanarius* |
| Broga'r Dŵr | *Rana lessonae* |
| Madfall y Tywod | *Lacerta agilis* |
| Clustwyfyn yr Aber | *Gortyna borelii lunata* |
| Y Fadfall Gribog | *Triturus cristatus* |
| Dyfrgi, Cyffredin | *Lutra lutra* |
| Y falwoden corn hwrdd drobwll lai | *Anisus vorticulus* |
| Neidr Lefn | *Coronella austriaca* |
| Styrsiwn | *Acipenser sturio* |
| Llyffant y Twyni | *Bufo calamita* |
| Crwbanod y Môr | *Caretta caretta*<br>*Chelonia mydas*<br>*Lepidochelys kempii*<br>*Eretmochelys imbricata*<br>*Dermochelys coriacea* |

[6] Atodlen 2: http://www.legislation.gov.uk/uksi/2017/1012/schedule/2/made

[7] Mae'r enw neu'r enwau cyffredin a roddir yn y golofn gyntaf wedi'u cynnwys er arweiniad yn unig; os oes anghydfod neu weithrediadau, ni chaiff yr enw neu'r enwau cyffredin eu hystyried.

### Tabl 2: Atodlen 3, Poblogaethau rhywogaethau penodol sydd wedi'u heithrio[8]

| Enw Cyffredin[4] | Enw gwyddonol | Gwledydd ac Ardaloedd sydd wedi'u heithrio |
|---|---|---|
| Afanc Ewrasiaidd | *Castor fiber* | Estonia, y Ffindir, Latfia, Lithiwania, Gwlad Pwyl a Sweden |
| Boch Dew Cyffredin (neu Fola Du) | *Cricetus cricetus* | Hwngari |
| Lyncs Ewrasiaidd | *Lynx lynx* | Estonia |
| Gwiber Seoane | *Vipera seoanni* | Sbaen |
| Blaidd Llwyd | *Canis lupus* | Bwlgaria, Estonia, Gwlad Groeg i ogledd Cydrediad 39, Latfia, Lithiwania, Gwlad Pwyl, Slofacia, Sbaen i ogledd Afon Duero, a'r ardal rheoli ceirw Llychlyn yn y Ffindir fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 2 Deddf y Ffindir rhif 848/90 o 14 Medi 1990 ar reoli Llychlyn[9] |

### Tabl 3: Atodlen 4, anifeiliaid na chaniateir eu dal neu eu lladd mewn ffyrdd penodol[10]

| Enw Cyffredin[4] | Enw gwyddonol |
|---|---|
| Barfogyn | *Barbus barbus* |
| Iâr fach y graig | *Thymallus thymallus* |
| Ysgyfarnog Fynydd | *Lepus timidus* |
| Lamprai'r Afon | *Lampetra fluviatilis* |
| Bele | *Martes martes* |
| Ffwlbart | *Mustela putorius (a elwir fel arall yn Putorius putorius)* |
| Eog yr Iwerydd | *Salmo salar (dŵr croyw'n unig)* |
| Morlo Barfog | *Erignathus barbatus* |
| Morlo Cyffredin | *Phoca vitulina* |
| Morlo Llwyd | *Halichoerus grypus* |
| Morlo'r delyn | *Phoca groenlandica (a elwir fel arall yn Pagophilus groenlandicus)* |
| Morlo Cycyllog | *Cystophora cristata* |
| Morlo Cylchog | *Phoca hispida (a elwir fel arall yn Pusa hispida)* |
| Herlyn | *Alosa alosa* |
| Gwangen | *Alosa fallax* |
| Fendas | *Coregonus albula* |
| Môr-wyniad | *Coregonus lavaretus* |

[8] Atodlen 3: http://www.legislation.gov.uk/uksi/2017/1012/schedule/3/made
[9] Gellir cael copi o Ddeddf y Ffindir gan y Tîm Rheoli Bywyd Gwyllt, y Gyfarwyddiaeth Polisi'r Amgylchedd Naturiol, Defra, Horizon House, Heol Deanery, Bryste BS1 5AH.
[10] Atodlen 4: http://www.legislation.gov.uk/uksi/2017/1012/schedule/4/made

**Tabl 4: Atodlen 5, rhywogaethau o blanhigion Ewropeaidd a warchodir[11]**

| Enw Cyffredin[4] | Enw gwyddonol |
|---|---|
| Tafolen y Traeth | *Rumex rupestris* |
| Rhedynen Cilarne | *Trichomanes speciosum* |
| Crwynllys cynnar | *Gentianella anglica* |
| Esgid Fair | *Cypripedium calceolus* |
| Dyfrforonen Ymlusgol | *Apium repens* |
| Naiad Ystwyth | *Najas flexilis* |
| Tegeirian y Fign Galchog | *Liparis loeselii* |
| Llyriad-y-dŵr Arnofiol | *Luronium natans* |
| Tormaen Melyn y Gors | *Saxifraga hirculus* |

[11] Atodlen 5: http://www.legislation.gov.uk/uksi/2017/1012/schedule/5/made

# Atodiad 2 – Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981: Atodlenni perthnasol

**Sylwer:** Roedd y dolenni gwe hyn yn gyfredol ym mis Gorffennaf 2020

## Planhigion

- Mae'n anghyfreithlon dadwreiddio planhigion gwyllt oni bai bod gennych chi ganiatâd perchennog y tir.
- Yn ogystal, mae mwy na 100 o blanhigion sy'n blodeuo a thros 75 o blanhigion is wedi'u rhestru ar Atodiad 8. Ar gyfer holl blanhigion Atodlen 8, mae'n drosedd i:
  - Bigo, dadwreiddio neu ddinistrio'n fwriadol
  - Gwerthu, cynnig neu ddatgelu at ddibenion gwerthu
- Dolen i Atodlen 8: http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1981/69/schedule/8/data.pdf
- Gofynion trwydded planhigion a warchodir Cyfoeth Naturiol Cymru: https://naturalresources.wales/permits-and-permissions/species-licensing/uk-protected-species-licensing/uk-protected-plant-licensing/?lang=en

## Rhywogaethau goresgynnol

- Mae'n drosedd plannu neu achosi i blanhigion goresgynnol penodol dyfu yn y gwyllt, Clymog Japan er enghraifft. Mae'r Ddeddf yn rhestru planhigion perthnasol yn Atodlen 9, Rhan II
  - Clymog Japan https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/wildlife-and-biodiversity/japanese-knotweed/?lang=en
- Mae Gorchymyn Rhywogaethau Goresgynnol Estron (Gorfodi a Thrwyddedu) 2019 (S.I. 2019/527 yn berthnasol i hyn. Gweler 'TGN005: Rhaid cael trwydded ar gyfer y Gorchymyn Rhywogaethau Goresgynnol Estron (Gorfodi a Thrwyddedu) 2019' am ragor o wybodaeth

## Anifeiliaid

- Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad
  - Atodlen 5: https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1981/69/schedule/5
- Amffibiaid
  - Gofynion Cyfoeth Naturiol Cymru: https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/wildlife-and-biodiversity/uk-protected-species/amphibians/?lang=en
- Moch daear
  - Gofynion Cyfoeth Naturiol Cymru: https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/wildlife-and-biodiversity/uk-protected-species/badgers/?lang=en
- Ceirw

  - Gofynion Cyfoeth Naturiol Cymru: https://naturalresources.wales/permits-and-permissions/species-licensing/uk-protected-species-licensing/deer-licensing/?lang=en
- Pysgod
  - Gofynion Cyfoeth Naturiol Cymru: https://naturalresources.wales/permits-and-permissions/species-licensing/uk-protected-species-licensing/fish-licensing/?lang=en
- Anifeiliaid di-asgwrn-cefn
  - Gofynion Cyfoeth Naturiol Cymru: https://naturalresources.wales/permits-and-permissions/species-licensing/uk-protected-species-licensing/invertebrate-licensing/?lang=en
- Belaod a ffwlbartiaid
  - Gofynion Cyfoeth Naturiol Cymru: https://naturalresources.wales/permits-and-permissions/species-licensing/uk-protected-species-licensing/pine-marten-and-polecat-licensing/?lang=en
- Gwiwerod coch a llwyd
  - Gofynion Cyfoeth Naturiol Cymru: https://naturalresources.wales/permits-and-permissions/species-licensing/uk-protected-species-licensing/red-and-grey-squirrel-licensing/?lang=en
- Ymlusgiaid
  - Gofynion Cyfoeth Naturiol Cymru: https://naturalresources.wales/permits-and-permissions/species-licensing/uk-protected-species-licensing/reptile-licensing/?lang=en
- Mamaliaid bach
  - Gofynion Cyfoeth Naturiol Cymru: https://naturalresources.wales/permits-and-permissions/species-licensing/uk-protected-species-licensing/small-mammal-licensing/?lang=en
- Morloi
  - Gofynion Cyfoeth Naturiol Cymru: https://naturalresources.wales/permits-and-permissions/species-licensing/uk-protected-species-licensing/seal-licensing/?lang=en
- Llygod y Dŵr
  - Gofynion Cyfoeth Naturiol Cymru: https://naturalresources.wales/permits-and-permissions/species-licensing/uk-protected-species-licensing/water-vole-licensing/?lang=en

## Adar

- Adar
  - Gofynion trwydded gyffredinol Cyfoeth Naturiol Cymru: https://naturalresources.wales/permits-and-permissions/species-licensing/uk-protected-species-licensing/general-licences-for-birds-2020/?lang=en

- Gofynion trwydded rhywogaethau a warchodir Cyfoeth Naturiol Cymru: https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/wildlife-and-biodiversity/uk-protected-species/birds/?lang=en